Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith



# Cyfraith Amaethyddol yng Nghymru

## Crynodeb o'r Adroddiad Cwmpasu

# ADOLYGIAD COMISIWN Y GYFRAITH O GYFRAITH AMAETHYDDOL SY'N BERTHNASOL YNG NGHYMRU

| | | |
|---|---|---|
| | **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i ddiwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| | **Beth rydym ni'n ei wneud?** | Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni adolygu'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru a nodi pa ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). |
| | **Am beth mae'r ddogfen hon yn sôn?** | Dyma grynodeb o'n hadroddiad cwmpasu. Pwrpas y crynodeb hwn yw esbonio'r materion isod.<br>• Ein casgliadau am y ddeddfwriaeth a ddylai fod yn rhan o'r darpar God.<br>• Unrhyw faterion technegol rydym wedi'u nodi gyda'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei hadolygu a allai fynnu neu elwa o wneud newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith.<br>• Y materion hynny a allai fod angen eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun sefydlu'r darpar God. |
| | **Ble alla i ddod o hyd i'r adroddiad cwmpasu?** | Mae'r adroddiad cwmpasu llawn ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg yn https://lawcom.gov.uk/project/cyfraith-amaethyddol-yng-nghymru/. |
| | **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ein hadroddiad cwmpasu ac yn penderfynu a ddylid sefydlu'r darpar God ai peidio. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis sefydlu'r darpar God, bydd hefyd yn penderfynu a ddylid mabwysiadu'r model a gynigir yn ein hadroddiad cwmpasu.<br>Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael ag unrhyw un o'r materion technegol sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth amaethyddol bresennol neu faterion ehangach i'w hystyried, ac rydym yn tynnu sylw atynt yn yr adroddiad cwmpasu. |

## Y CRYNODEB HWN

Mae'r crynodeb hwn yn egluro'r prosiect cyfraith amaethyddol yng Nghymru ac yn nodi ein model arfaethedig ar gyfer y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru ("y darpar God"). Mae hefyd yn crynhoi'r materion hynny y gallai fod angen eu hystyried ymhellach os bydd gwaith yn cael ei wneud i sefydlu'r darpar God.

Nid ydym wedi atgynhyrchu pob manylyn o'r adroddiad cwmpasu yn y crynodeb hwn. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar y materion pwysicaf. Os ydych chi eisiau gwybod mwy am y gyfraith, neu sut a pham rydym yn meddwl bod angen iddi newid, rydym yn eich annog i edrych ar yr adran berthnasol yn yr adroddiad cwmpasu. Os oes arnoch angen i'r crynodeb hwn fod ar gael mewn fformat gwahanol, anfonwch e-bost at: agriculturewales@lawcommission.gov.uk.

## Y CYFLWYNIAD

### Pwrpas yr adroddiad cwmpasu

Ym mis Ebrill 2024, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni archwilio'r corff presennol o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru gyda'r bwriad o wneud y canlynol:

1. nodi pa ddeddfwriaeth ddylai'n sicr fod yn rhan o'r darpar God;
2. ystyried a oes problemau technegol gyda'r ddeddfwriaeth amaethyddol bresennol a allai olygu bod angen newidiadau neu addasiadau i'r gyfraith gyda'r nod o symleiddio a moderneiddio'r gyfraith yn y maes hwn; a
3. thynnu sylw at y materion hynny a allai fod angen eu hystyried yn fanylach.

### Cod cyfraith Cymru

Gellir deall y term "cod cyfraith" mewn sawl ffordd. Yn y cyd-destun Cymreig, mae ystyr penodol i'r term. Mae cod cyfraith Cymru yn ddatganiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol ar bwnc datganoledig penodol.

Ni fwriedir i god cyfraith Cymru fod yn fath newydd o offeryn neu ddeddfiad cyfreithiol. Yn hytrach, mae cod cyfraith Cymru yn gasgliad ar wahân o ddeddfwriaeth sylfaenol a is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u datgan gyda'i gilydd i ffurfio cod cyfraith Cymru ar bwnc penodol.

Gellid dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rhan o god cyfraith Cymru at ei gilydd mewn un neu fwy o Ddeddfau'r Senedd. Mae hyn yn golygu y gellir dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rhan o god cyfraith Cymru at ei gilydd yn un o'r ffyrdd canlynol.

1. Un neu ragor o Ddeddfau cydgrynhoi Senedd Cymru.
2. Un neu fwy o Ddeddfau Senedd Cymru sy'n diwygio'n gyfan gwbl.
3. Cymysgedd o Ddeddfau cydgrynhoi Senedd Cymru a Deddfau Senedd Cymru sy'n diwygio'n gyfan gwbl.

Yn gyffredinol, mae cydgrynhoi yn golygu dod â chyfreithiau tameidiog ar bwnc penodol at ei gilydd mewn un Ddeddf neu gyfres o Ddeddfau cysylltiedig. Mae cydgrynhoi yn ymgorffori unrhyw ddiwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth wreiddiol ers iddi gael ei deddfu a moderneiddio'r iaith, yr arddull ddrafftio a'r strwythur. Mewn cymhariaeth, mae Deddf Senedd Cymru sy'n diwygio'n eang yn un sy'n disodli'r gyfraith bresennol â fframwaith cyfreithiol gwahanol sy'n seiliedig ar amcanion polisi newydd.

Gall darpariaethau Deddf Senedd Cymru ei gwneud yn gwbl glir y bydd y Ddeddf yn ffurfio rhan o god cyfraith Cymru ar bwnc penodol. Er enghraifft, mae adran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn datgan bod y Ddeddf yn rhan o god cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Ochr yn ochr â dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer pwnc, bydd cod cyfraith Cymru fel arfer yn cynnwys is-ddeddfwriaeth allweddol ar gyfer y pwnc hwnnw. Er enghraifft, mae pum set o reoliadau a gaiff eu llunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) sy'n rhan o'r cod cyfreithiol yn ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Ar ôl dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth at ei gilydd o dan god cyfraith Cymru, y bwriad yw cyhoeddi'r ddeddfwriaeth honno a sicrhau ei bod ar gael drwy dudalen we. Mae hyn yn golygu y bydd yn haws i unigolion ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth ar bwnc penodol a'i darllen.

Yn aml, mae angen diwygio deddfwriaeth ar ryw adeg ar ôl iddi gael ei deddfu. Os oes angen diwygio'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn cod cyfraith Cymru, yna dylid gwneud y diwygiadau hynny i'r ddeddfwriaeth sy'n rhan o'r cod yn hytrach na thrwy greu Deddfau newydd sy'n eistedd ochr yn ochr â'r cod. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y drefn a gyflawnir gan god cyfraith Cymru yn cael ei gynnal.

Weithiau, efallai na fydd cod cyfraith Cymru ar bwnc yn cynnwys yr holl gyfreithiau sy'n berthnasol i'r pwnc hwnnw. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi cod cyfraith Cymru dan sylw gyfeirio at y cyfreithiau hynny sydd y tu allan i'r cod, ond sy'n berthnasol i'w ddarllenwyr. Pan fyddwn yn defnyddio'r term cyfeirio drwy gydol y crynodeb, rydym yn gwneud hynny yn unol â'r ystyr a nodir yn y paragraff hwn.

## Problemau gyda'r gyfraith bresennol

Mae'r gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru yn swmpus, yn dameidiog ac, mewn mannau, yn anodd i ddeall.

Nid yw'r gyfraith sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi'i nodi mewn un lle. Yn hytrach, mae wedi'i gwasgaru ar draws clytwaith o ddeddfwriaeth sylfaenol, fel Deddfau a Mesurau, a is-ddeddfwriaeth, fel rheoliadau, rheolau a gorchmynion.

Er bod amaethyddiaeth yn faes wedi'i ddatganoli, nid felly y bu erioed. Mae hyn yn golygu bod y deddfau sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru yn cynnwys deddfwriaeth sy'n cael ei deddfu gan Senedd Cymru ac ar wahân gan Senedd y DU.

Mewn rhai achosion, mae Deddfau Senedd y DU sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol yng Nghymru wedi cael eu diwygio fel eu bod yn sicrhau darpariaeth wahanol ar gyfer Cymru neu Loegr. Gall Deddfau Senedd y DU hefyd gynnwys darpariaethau sy'n gymwys i Gymru yn unig neu, fel arall, nad ydynt yn gymwys i Gymru o gwbl. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd nodi'r union gorff o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru.

Mae'r gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau neu orchmynion, sydd wedi'i deddfu gan Weinidogion Cymru, Gweinidogion y DU neu, mewn rhai achosion, cyfuniad o'r ddau. Gall is-ddeddfwriaeth hefyd gael ei diwygio'n aml. Gall is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr hefyd gynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru mewn ffordd wahanol i Loegr neu ddarpariaethau sy'n berthnasol i un wlad yn unig ac nid i'r llall.

Ar ben hynny, tra oedd y DU yn aelod o'r UE, gallai sefydliadau'r UE gyflwyno deddfau ynghylch amaethyddiaeth a meysydd cysylltiedig eraill a oedd yn berthnasol yn y DU. Er nad yw'r DU bellach yn aelod o'r UE, mae llawer o'r gyfraith sy'n deillio o'r UE ac sy'n berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol bellach yn rhan o'n cyfraith ddomestig fel cyfraith a gymhathwyd. Mae llawer o gyfreithiau a gymathwyd wedi cael eu diwygio'n sylweddol i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.



Ar ben hynny, mae'r gyfraith amaethyddol sy'n gymwys yng Nghymru yn dyddio'n ôl mewn rhai achosion i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac, mewn mannau, mae'n defnyddio iaith hen ffasiwn. Mae achosion hefyd lle nad yw cyfraith amaethyddol o bosibl yn adlewyrchu arferion ffermio modern na nodau neu amcanion polisi presennol Llywodraeth Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau uchod yn golygu ei bod yn anodd nodi'r corff o gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol a nodi a deall effaith deddfwriaeth o'r fath ymhellach.

Mae gan Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddyletswydd i gyhoeddi rhaglen o waith arfaethedig sydd â'r bwriad o wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Ymysg materion eraill, rhaid i'r rhaglen honno gynnwys gweithgareddau y bwriedir iddynt gyfrannu at broses barhaus o gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru.

Mae codeiddio cyfraith Cymru yn rhaglen waith hirdymor. Hyd yma, mae dau god cyfraith Cymru wrthi'n cael eu datblygu.

1. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn sefydlu cod cyfraith sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

2. Bydd Bil Cynllunio (Cymru), os caiff ei ddeddfu, yn sefydlu cod cyfraith sy'n ymwneud â chyfraith cynllunio yng Nghymru.

## EIN DULL GWEITHREDU

### Beth yw cyfraith amaethyddol?

Er mwyn nodi pa ddeddfwriaeth ddylai fod yn rhan o'r darpar God, mae'n bwysig yn gyntaf ystyried beth yw ystyr “cyfraith amaethyddol”. Fodd bynnag, nid yw'n hawdd diffinio cyfraith amaethyddol.

Fel y disgrifir uchod, mae cyfraith amaethyddol wedi'i gwasgaru ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n deillio o wahanol ffynonellau. Mae'r amcanion polisi sy'n sail i ddeddfwriaeth amaethyddol hefyd wedi esblygu dros amser i gyd-fynd â datblygiadau technolegol a blaenoriaethau, anghenion ac agweddau newidiol cymdeithas. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd nodi egwyddorion cyfreithiol cyffredin y gellir eu defnyddio i benderfynu pa gyfreithiau sy'n rhan o'r corff o gyfraith amaethyddol. Er bod rhai gwerslyfrau blaenllaw ar gael ar gyfraith amaethyddol, mae'r ystod o adnoddau sydd ar gael ar y corff hwn o gyfreithiau - fel y mae'n berthnasol yng Nghymru - yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd o'r gyfraith y gwnaethom nodi eu bod y tu allan i gwmpas ein hadolygiad. Er enghraifft, nid yw ein hadroddiad cwmpasu yn ystyried y cyfreithiau hynny sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU. Y rheswm am hyn yw bod Llywodraeth Cymru wedi nodi mai dim ond deddfwriaeth sy'n berthnasol i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd y byddai cod cyfraith Cymru yn ei gwmpasu.

Nid ydym chwaith yn adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â cheffylau, pysgod na gwenyn. Er bod y deddfau sy'n ymwneud â'r rhywogaethau hyn yn berthnasol i'r sector amaethyddol, rydym o'r farn bod y ddeddfwriaeth dan sylw yn rhan o feysydd penodol eraill o gyfraith Cymru.

### Ein meysydd ffocws

Fel rydym yn ei bwysleisio uchod, mae cyfraith amaethyddol yn swmpus ac o bosibl yn enfawr ei chwmpas. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bwysig ein bod yn gosod paramedrau synhwyrol ar gwmpas ein hadolygiad. Er mwyn helpu i nodi ble i gyfeirio ein sylw, fe wnaethom ystyried amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfraith amaethyddol, siarad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, a mynd i nifer o ddigwyddiadau amaethyddol allweddol yng Nghymru. Cyflwynir rhagor o fanylion yn ein hadroddiad cwmpasu.

Mae'r tabl i’r dde yn nodi'r meysydd hynny o gyfraith amaethyddol y nododd ein dull gweithredu a'n hymgysylltiad fel y meysydd ffocws ar gyfer ein hadolygiad.



| Maes y gyfraith | Crynodeb o'r sail resymegol |
|---|---|
| Y Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau, Mesurau neu gyfreithiau eraill y gellir eu hadnabod yn rhwydd o'u teitl a'u cynnwys fel rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn bennaf neu'n unig. | Gyda'i gilydd, mae'r Deddfau hyn yn rhoi pwerau a dyletswyddau i Weinidogion Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus neu gyrff statudol eraill, i reoleiddio neu gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru. |
| Cyfreithiau sy'n rheoleiddio gweithgarwch amaethyddol neu ddefnydd tir amaethyddol, ac sydd wedi'u hanelu at warchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt, lliniaru newid hinsawdd, rheoli adnoddau naturiol a mynediad i gefn gwlad. | Defnyddir tua 90% o dir Cymru ar gyfer amaethyddiaeth sy'n golygu bod gan y sector amaethyddol y potensial i effeithio'n sylweddol ar amgylchedd, adnoddau naturiol a bywyd gwyllt Cymru. |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid, ac sy'n berthnasol i dda byw. | Defnyddir 78% o dir amaethyddol Cymru ar gyfer ffermio da byw. Mae 78% o'r mathau o ffermydd yng Nghymru yn ffermydd pori da byw |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud â phlanhigion (gan gynnwys cnydau amaethyddol), coedwigoedd a gwrychoedd ac sy'n gymwys yn y cyd-destun amaethyddol. | Defnyddir tua 6% o dir amaethyddol ar gyfer garddwriaeth a chnydau âr.<br><br>Ar ben hynny, defnyddir 7.5% o dir amaethyddol Cymru fel coetir fferm[1] ac mae 42% o'r holl goetiroedd yng Nghymru wedi'u lleoli ar ffermydd yng Nghymru. |
| Cyfreithiau sy'n ymwneud â phrydlesu tir amaethyddol, tai i weithwyr amaethyddol a chyfreithiau rheoli tir neu datblygu eraill sy'n berthnasol i dir amaethyddol. | Mae tua thraean o dir amaethyddol Cymru a Lloegr yn cael ei osod i denantiaid.<br><br>Adroddir bod gweithgareddau arallgyfeirio ar ffermydd Cymru, sy'n gallu ymgysylltu â chyfreithiau rheoli a datblygu tir ehangach, wedi tyfu dros y degawd diwethaf. Yn 2017, roedd gweithgareddau arallgyfeirio yn cynrychioli, ar gyfartaledd, 3.4% o refeniw ffermydd yng Nghymru. |
| Cyfreithiau sy'n berthnasol i'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch a nwyddau amaethyddol.[2] | Mae gweithgareddau amaethyddol yn rhan o gam cychwynnol y gadwyn gyflenwi ar gyfer cynnyrch amaethyddol ("y gadwyn gyflenwi amaethyddol"). Gall camau eraill yn y gadwyn gyflenwi amaethyddol gynnwys prosesu, pecynnu, trafnidiaeth ac adwerthu. Mae nifer cymharol sylweddol o gyfreithiau sy'n berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. |

## Ein meini prawf ar gyfer cynnwys

Er mwyn penderfynu ar y cyfreithiau hynny rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God, roeddem wedi defnyddio meini prawf cyson i asesu addasrwydd.

Yn benodol, rydym yn cynnig y dylai'r darpar God gynnwys y cyfreithiau hynny:

1. sy'n ymwneud â phwnc amaethyddiaeth; ac
2. sydd â chymhwysiad ymarferol sy'n gyfyngedig i amaethyddiaeth, neu sy'n ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth.

Roedd hyn yn golygu ein bod wedi asesu a oedd pwnc y gyfraith dan sylw yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Ar gyfer pob un o'r cyfreithiau a adolygwyd, roeddem hefyd wedi ystyried ai ffermwyr yn bennaf sy'n gorfod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth dan sylw, neu y mae'r ddeddfwriaeth dan sylw yn effeithio arnynt.

Lle bo modd, roeddem yn dibynnu ar wybodaeth ystadegol a ffynonellau gwybodaeth awdurdodol eraill wrth wneud yr asesiadau hyn. Roedd enghreifftiau o'r ffynonellau gwybodaeth y dibynnwyd arnynt yn cynnwys nodiadau esboniadol i ddeddfwriaeth, gwaith academaidd, a chanllawiau'r llywodraeth. Roeddem hefyd wedi elwa'n sylweddol o'n hymgysylltiad ag arbenigwyr a rhanddeiliaid allanol a'n helpodd i nodi'r cyfreithiau hynny sydd o bwysigrwydd canolog i'r sector amaethyddol.

Fe wnaethom gymhwyso ein meini prawf ar gyfer cynnwys i'r meysydd hynny o gyfraith amaethyddol y nodwyd bod angen i ni ganolbwyntio arnynt (gweler uchod). Yn gyfan gwbl, mae ein hadroddiad cwmpasu yn ystyried tua 150 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth. Yn yr adrannau canlynol, rydym yn rhoi trosolwg o'r mathau o ddeddfwriaeth a adolygwyd gennym ar gyfer pob maes o gyfraith amaethyddol.

## DEDDFAU AMAETHYDDIAETH A DEDDFAU CYSYLLTIEDIG

Fe wnaethom adolygu 20 darn gwahanol o ddeddfwriaeth sylfaenol sydd naill ai'n cael eu galw'n Ddeddfau Amaethyddiaeth neu'n Ddeddfau Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) neu sydd â theitl fel arall sy'n dangos bod y ddeddfwriaeth yn ymwneud ag amaethyddiaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol dan sylw yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ac, mewn rhai achosion, i gyrff cyhoeddus eraill reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol yng Nghymru. Mae'r prif ddeddfau dan sylw yn cynnwys Deddfau a Mesurau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU.

Mae enghreifftiau o'r cyfreithiau roeddem wedi'u nodi fel rhai sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God wedi'u nodi isod.

| Deddf | Crynodeb |
|---|---|
| Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 ("Deddf 1946") | Mae Deddf 1946 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru reoleiddio materion penodol sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth megis y pŵer i ddyroddi rheoliadau sy'n cyfyngu ar losgi grug a llystyfiant penodedig arall dan reolaeth. |
| Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") | Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru. Ymysg materion eraill, mae'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru yn gyfrifol am baratoi gorchmynion sy'n pennu'r isafswm cyflog amaethyddol. |
| Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (Rhan 1, Penodau 1 i 3 o Ran 2 a Phenodau 1 a 3 o Ran 3) ("Deddf 2023") | Yn gyffredinol, mae darpariaethau Deddf 2023 sydd wedi'u rhestru yn y golofn ar y chwith yn rhoi pwerau neu ddyletswyddau i Weinidogion Cymru gefnogi neu reoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru. |

## CYFREITHIAU SYDD Â'R NOD O DDIOGELU'R AMGYLCHEDD, BYWYD GWYLLT AC ADNODDAU NATURIOL

Mae digonedd o ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i ffermwyr yng Nghymru. Felly, fe wnaethom adolygu'r cyfreithiau sylfaenol ac eilaidd hynny sy'n berthnasol i'r sector amaethyddol, ac sydd wedi'u hanelu at ddiogelu'r amgylchedd, bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol. Roedd y mathau o gyfreithiau a adolygwyd gennym yn eang o ran eu pwnc ac, er enghraifft, roeddent yn cynnwys deddfau a oedd:

- yn darparu ar gyfer cyfundrefnau trwyddedu yng nghyswllt gweithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd;
- yn gwarchod ardaloedd yr ystyrir eu bod yn bwysig i'r amgylchedd neu i fywyd gwyllt; ac
- yn ceisio atal neu leihau'r risg o lygredd dŵr amaethyddol.

Mae enghreifftiau o'r cyfreithiau y gwnaethom nodi eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God wedi'u nodi yn y tabl isod.

Mae nifer cymharol uchel o gyfreithiau sydd â'r nod o ddiogelu'r amgylchedd, bywyd gwyllt ac adnoddau naturiol ond rydym yn dod i'r casgliad eu bod yn anaddas i'w cynnwys yn y darpar God er bod yn rhaid i ffermwyr gydymffurfio â nhw. Mae hyn fel arfer oherwydd bod y cyfreithiau hynny'n cynnwys pwnc sydd â chysylltiad agosach â'r amgylchedd nag ag amaethyddiaeth ac sy'n berthnasol yn ymarferol i gyd-destunau gan gynnwys amaethyddiaeth, ond sy'n ymestyn y tu hwnt i hynny. Felly, rydym yn awgrymu y gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar god gyfeirio ei ddarllenwyr at y cyfreithiau amgylcheddol hynny sydd y tu allan i'r cod, ond sy'n berthnasol i ffermwyr.

Rydym yn cydnabod y gallai'r adnodd cyfeirio fod yn ateb amherffaith lle mae angen i'r dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God gyfeirio at nifer fawr o gyfreithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, mae ein gwaith ar gyfer y prosiect hwn yn cyfrannu at raglen ehangach i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru fel sy'n cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu nad datblygu'r darpar God yw'r unig gyfle i wella hygyrchedd y cyfreithiau amgylcheddol hynny sy'n benodol berthnasol yn y cyd-destun amaethyddol.

| Deddfwriaeth | Crynodeb |
|---|---|
| Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (“Rheoliadau CoAP 2021”) | Nod Rheoliadau CoAP 2021 yw atal neu leihau'r risg o lygredd drwy osod rheolau ar gyfer rhai arferion ffermio. Yn benodol, mae'r rheoliadau'n gosod rheolaethau ar ddefnyddio a storio silwair, slyri, tail organig a gwrtaith nitrogen. |
| Rheoliadau Llosgi Gweddillion Cnydau 1993 (“Rheoliadau 1993”) | Mae Rheoliadau 1993 yn gwahardd llosgi mathau penodedig o weddillion cnydau (er enghraifft, gwellt ŷd a sofl, gweddillion hadau olew) ar dir amaethyddol oni bai bod eithriadau penodol yn berth-nasol. |

## CYFREITHIAU SY'N YMWNEUD AG IECHYD A LLES DA BYW

Mae iechyd a lles da byw yn rhan annatod o sector amaethyddol Cymru, sy'n cael ei ddominyddu gan ffermio da byw. Mae hyn yn golygu bod y cyfreithiau hynny sy'n ymwneud ag iechyd a lles da byw yn rhan bwysig o'r corff o gyfreithiau amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru.



Yn gyffredinol, fe wnaethom adolygu'r cyfreithiau hynny:

- sy'n darparu ar gyfer lles da byw ar y fferm, wrth eu cludo ac wrth eu lladd; ac
- sy'n ceisio dileu neu atal lledaeniad clefydau anifeiliaid sy'n effeithio ar dda byw.

Mae'r tabl isod yn rhestru enghreifftiau o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd a lles da byw sydd, yn ein barn ni, yn addas i'w cynnwys yn y darpar God.

Mae rhai cyfreithiau lles sy'n berthnasol i dda byw ond hefyd anifeiliaid eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2006. Mewn achosion o'r fath, rydym yn awgrymu y gallai'r dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God gyfeirio at y cyfreithiau hynny sydd y tu allan i'r darpar God, ond sy'n dal yn berthnasol i iechyd a lles da byw.

Yn y tymor hwy, awgrymwn y gellid hefyd ystyried ehangu cwmpas y darpar God i gwmpasu'r gyfraith ar iechyd a lles anifeiliaid yn gyffredinol. Dylid darllen yr awgrym hwn ochr yn ochr â'n casgliad y dylai'r darpar God gynnwys y gyfraith ar iechyd planhigion ac amrywiadau planhigion (gweler isod). Mae hyn yn golygu y byddai'r darpar God yn dod yn god cyfraith ar amaethyddiaeth, anifeiliaid a phlanhigion.

| Deddfwriaeth | Crynodeb |
|---|---|
| Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2007 (“Rheoliadau 2007”) | Mae Rheoliadau 2007 yn diogelu lles anifeiliaid a ffermir drwy osod safonau gofynnol ar gyfer eu gofal a'u hwsmonaeth. Diffinnir anifeiliaid fferm fel anifeiliaid sy'n cael eu bridio neu eu cadw er mwyn cynhyrchu bwyd, gwlân neu groen neu at ddibenion ffermio eraill. |
| Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (“Deddf 1981”) a Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006 (“Gorchymyn 2006”) | Mae Deddf 1981 yn rheoleiddio'r gwaith o atal, rheoli a dileu clefydau anifeiliaid. Mae'n creu trefn sy'n ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod i'r awdurdodau perthnasol am glefydau hysbysadwy penodol mewn anifeiliaid.<br><br>Mae Gorchymyn 2006 yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer mesurau rheoli a dileu clefydau os bydd achos tybiedig neu wedi'i gadarnhau o glwy'r traed a'r genau. |
| Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015 (“Gorchymyn 2015”) | Mae Gorchymyn 2015 yn gosod gofynion ynghylch adnabod ac olrhain defaid a geifr at ddibenion rheoli clefydau. |

## CYFREITHIAU SY'N YMWNEUD Â PHLANHIGION, COEDWIGAETH A GWRYCHOEDD

Yn fras, caiff tua 6% o dir amaethyddol ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth a chnydau âr.[3] Ar ben hynny, roedd coetir ffermydd yn cyfrif am 7.5% o'r 1,770,100 hectar o dir amaethyddol yng Nghymru yn 2025,[4] ac mae 42% o'r holl goetiroedd yng Nghymru wedi'u lleoli ar ffermydd yng Nghymru.[5]

Gall coed a gwrychoedd gynnig llu o fanteision i ffermydd gan gynnwys gweithredu fel rhwystrau i dda byw, marcio ffiniau ar dir a chynnig ffrydiau incwm ychwanegol, fel coetiroedd masnachol. Gall coed hefyd helpu i liniaru llygredd dŵr amaethyddol.

Felly, mae'n hanfodol i'r sector amaethyddol bod cnydau a choed yn iach, mewn cyflwr da ac yn gallu addasu i amodau sy'n newid o hyd. Yn unol â hynny, fe wnaethom adolygu'r cyfreithiau hynny:

- sy'n rheoli coedwigaeth fel adnodd naturiol ac fel ffynhonnell pren masnachol;
- sy'n ceisio diogelu iechyd planhigion drwy ddarparu mesurau sydd wedi'u hanelu at atal clefydau planhigion rhag lledaenu; ac
- sy'n darparu fframwaith ar gyfer hawliau eiddo deallusol breiniedig mewn mathau cymwys o blanhigion a choed.

Ar gyfer cyfraith coedwigaeth, roedd ein hadolygiad yn gyntaf yn ystyried a yw'r sector coedwigaeth yn rhan o'r sector amaethyddol, ac yn ail, a oedd y ddeddfwriaeth dan sylw yn addas i'w chynnwys yn y darpar God ai peidio. Rydym yn dod i'r casgliad bod coedwigaeth yn cael ei hystyried yn sector cysylltiedig ond ar wahân yn gyffredinol. Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom nad yw cymhwysiad ymarferol cyfraith coedwigaeth yn ymwneud yn bennaf ag amaethyddiaeth. Yn dilyn hynny felly nid oedd cyfraith coedwigaeth yn bodloni ein meini prawf i'w cynnwys yn y darpar God. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfraith coedwigaeth yn berthnasol iawn i ffermwyr ac felly rydym yn awgrymu y gallai unrhyw dudalen we sy'n cyhoeddi'r darpar God gyfeirio at ddeddfwriaeth o'r fath.

Mae enghreifftiau o'r ddeddfwriaeth iechyd planhigion ac amrywiadau planhigion y daethom i'r casgliad eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God wedi'u nodi yn y tabl isod.



| Deddfwriaeth | Crynodeb |
|---|---|
| Deddf Iechyd Planhigion 1967 ("Deddf 1967") | Mae Deddf 1967 yn helpu i atal plâu rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu yn y DU. Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion i ddilyn y nod hwnnw. |
| Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 ar fesurau diogelu yn erbyn plâu planhigion ("Rheoliad y DU (UE) 2016/2031") | Mae Rheoliad y DU (UE) 2016/2031 yn darparu fframwaith rhagweithiol ar gyfer delio â phlâu a chlefydau a fyddai fel arall yn niweidio planhigion. Cyflwynodd y Rheoliad basbortau planhigion y DU fel gofyniad ar gyfer gweithredwyr proffesiynol sy'n symud planhigion o fewn Prydain Fawr neu i mewn iddi. |
| Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997 ("Deddf 1997") | Mae Deddf 1997 yn llywodraethu'r hawl eiddo deallusol: hawliau bridwyr planhigion. Mae hawliau bridwyr planhigion yn rhoi hawliau masnachol unigryw i berchnogion amrywogaethau planhigion cofrestredig dros ddeunydd y planhigion (fel yr hadau). |

## CYFREITHIAU SY'N YMWNEUD Â THENANTIAETHAU AMAETHYDDOL A MATERION ERAILL SY'N YMWNEUD Â RHEOLI TIR

Mae tenantiaid ar tua thraean o dir amaethyddol ac mae fframwaith deddfwriaethol penodol sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid yn y cyd-destun amaethyddol. Ceir hefyd ystod o ddeddfwriaeth sy'n rheoli materion rheoli tir eraill megis y rhai sy'n ymwneud â datblygu tir, mynediad cyhoeddus i dir a chofrestru a defnyddio tir comin.

Mae enghreifftiau o'r deddfwriaethau y gwnaethom nodi eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God wedi'u nodi yn y tabl isod.

Yn ddiweddar, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi prosiect i adolygu cyfraith tenantiaethau amaethyddol. Gan fod amaethyddiaeth yn faes datganoledig o'r gyfraith, gallai'r prosiect gynnwys ystyriaeth o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae hwn yn fater i'w drafod maes o law gyda Llywodraeth Cymru. Petai ein prosiect tenantiaeth amaethyddol yn cynnwys y gyfraith fel sy'n berthnasol yng Nghymru, mae ein hadroddiad yn awgrymu y gallai unrhyw benderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys cyfraith tenantiaeth amaethyddol yn y darpar God ai peidio, a sut i wneud hynny gael ei lywio'n ddefnyddiol gan ganlyniad ein hadolygiad.[6]



| Deddfwriaeth | Crynodeb |
|---|---|
| Deddf Amaethyddiaeth 1947, adrannau 10 ac 11 (“Deddf 1947”) | Mae adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 1947 yn gosod rhwymedigaethau ar landlordiaid a thenantiaid (neu feddianwyr eraill tir amaethyddol) i reoli tir amaethyddol i safonau penodol sy'n sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer cynhyrchu amaethyddol. |
| Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (“AHA 1986”) | Mae AHA 1986 yn rheoli daliadau amaethyddol (a elwir yn aml yn denantiaethau AHA) a gafodd eu creu cyn 1 Ionawr 1995. Mae'r Ddeddf yn diffinio tenantiaeth yr AHA ac yn nodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n codi. |
| Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (“ATA 1995”) | Creodd ATA 1995 fath newydd o denantiaeth, a elwir yn denantiaethau busnes fferm. Mae'r Ddeddf yn diffinio tenantiaethau busnes fferm ac yn nodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n codi. |

## EIN MODEL ARFAETHEDIG AR GYFER Y DARPAR GOD

Ar ôl defnyddio ein meini prawf ar gyfer cynhwysiant, rydym yn nodi nifer cymharol uchel o gyfreithiau rydym yn credu sy'n addas i'w cynnwys yn y darpar God . Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- 14 o Ddeddfau Senedd y DU;
- 1 Deddf Senedd Cymru; ac
- oddeutu 70 o ddarnau o is-ddeddfwriaeth a chyfreithiau a gymathwyd.

Rydym hefyd yn nodi chwe darn arall o ddeddfwriaeth sylfaenol a allai fod yn addas i'w cynnwys yn amodol ar faterion sydd angen ystyriaeth bellach.

O ystyried maint y ddeddfwriaeth dan sylw, rydym yn cynnig y gellid dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God at ei gilydd o dan bedair Deddf y Senedd Cymru, y mae pob un ohonynt wedi'u nodi fel rhan o'r darpar God.

1. Deddf cydgrynhoi gychwynnol sy'n dwyn ynghyd ddarpariaethau mewn rhai Deddfau Amaethyddiaeth a Deddfau eraill sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol yn bennaf.
2. Deddf y Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y ddeddfwriaeth sylfaenol ar denantiaethau amaethyddol.
3. Deddf  Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y brif gyfraith sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid.
4. Deddf Senedd Cymru sy'n cydgrynhoi neu'n diwygio'n sylweddol y brif gyfraith sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywiadau planhigion.

☞ Gweler Pennod 11 am adroddiad manwl o'r cyfreithiau a'r darpariaethau y gellid, yn ein barn ni, eu cynnwys ym mhedair Deddf Senedd.

Ochr yn ochr â dod â'r ddeddfwriaeth sylfaenol at ei gilydd yn Neddfau Senedd Cymru, rydym yn cynnig bod gwaith yn cael ei wneud i resymoli'r is-ddeddfwriaeth rydym yn nodi ei bod yn addas i'w chynnwys yn y darpar God. Gallai rhesymoli is-ddeddfwriaeth, er enghraifft, gynnwys symleiddio'r is-ddeddfwriaeth presennol sy'n ymwneud â phwnc tebyg yn un offeryn statudol i Gymru.

Er mwyn sicrhau bod modd rheoli'r gwaith sy'n gysylltiedig â sefydlu'r darpar God, rydym yn nodi trefn waith arfaethedig ar gyfer sefydlu'r darpar God yn ein hadroddiad.

☞ Gweler Pennod 11

## FFACTORAU PERTHNASOL ERAILL A ALLAI LYWIO FFURF A CHYNNWYS Y DARPAR GOD

Rydym yn cydnabod bod model y darpar God a gynigir yn ein hadroddiad cwmpasu yn un o nifer o fodelau posibl ar gyfer cod cyfraith amaethyddol i Gymru. Mae cydgrynhoi a chodeiddio yn ymarferion technegol iawn sy'n cael eu harwain gan ddrafftwyr, a gallai'r broses, ar ôl dechrau, arwain at amrywio neu newid y model rydym wedi'i gynnig yn ein hadroddiad cwmpasu.

Y tu hwnt i'n meini prawf ar gyfer cynhwysiant, mae ffactorau eraill hefyd a allai lywio penderfyniadau ynghylch ffurf a chynnwys y darpar God. Mae'r rhain yn cynnwys y materion a amlinellir isod.

- Y goblygiadau o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r darpar God a chynnal y darpar God ar ôl hynny.
- Blaenoriaethau gwleidyddol a allai lywio pa feysydd cyfreithiol sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer codeiddio.
- Galwadau am ddiwygio sylweddol a allai hefyd ddylanwadu ar ba feysydd o’r gyfraith amaethyddol sy'n cael eu blaenoriaethu ar gyfer codeiddio ac a yw'r cyfreithiau hynny'n cael eu codeiddio mewn Deddf cydgrynhoi Senedd Cymru neu Ddeddf Senedd Cymru sy'n cyflwyno diwygiad cyfan gwbl.
- Ymrwymiadau gwleidyddol ehangach Llywodraeth Cymru, er enghraifft, fel y nodir mewn fframweithiau cyffredin perthnasol. Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau llywodraethol sydd â'r bwriad o hwyluso dulliau gweithredu cyffredin rhwng pedair gwlad y DU yng nghyswllt materion penodol a oedd yn arfer cael eu llywodraethu a'u cydlynu ar lefel yr UE.
- Terfynau cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

## DEDDFWRIAETH SYLFAENOL A DARPARIAETHAU SYDD WEDI'U CYNNWYS YN Y DDEDDFWRIAETH SYLFAENOL SY'N ADDAS I'W CYNNWYS YN Y DARPAR GOD

- Deddf Ffermio'r Bryniau 1946 aa 20 a 21
- Deddf Iechyd Planhigion 1967
- Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995
- Deddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a 152
- Deddf Sector Amaethyddol (Cymru ) 2014
- Deddf Amaethyddiaeth 1970 Rhan 3
- Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a 97
- Deddf Amaethyddiaeth 1947 aa 10, 11 a 109
- Deddf Amaethyddiaeth 1947 aa 98 a 99
- Deddf Amrywogaethau Planhigion 1997
- Deddf Amrywogaethau Planhigion a Hadau 1964 aa 16 i 19, 24 i 31 a 33 i 41
- Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 Rhan 1, Penodau 1 i 3 o Ran 2, Penodau 1 a 3 o Ran 3 a Rhan 6
- Deddf Daliadau Amaethyddol 1986

**Deddfau Senedd Cymru a allai fod yn rhan o ddarpar god cyfraith amaethyddol i Gymru**

- **Cydgrynhoi Deddfau Amaethyddiaeth**
- **Cyfraith tenantiaeth amaethyddol**
- **Cyfraith iechyd anifeiliaid a lles da byw**
- **Cyfraith iechyd planhigion, amrywogaethau a hadau**

## MANTEISION SEFYDLU'R DARPAR GOD

Ar ôl adolygu'r corff tameidiog presennol o gyfraith amaethyddol a chymhwyso ein meini prawf i'w cynnwys yn y ddeddfwriaeth honno, rydym o'r farn bod cyfraith amaethyddol yn addas i'w dwyn ynghyd mewn cod cyfraith amaethyddol i Gymru.

Ar ben hynny, rydym o'r farn y dylai datblygu'r darpar God arwain at nifer o fanteision pwysig a fydd, gyda'i gilydd, yn gwella hygyrchedd y gyfraith amaethyddol sy'n berthnasol yng Nghymru. Nodir enghreifftiau allweddol yn y tabl isod.

| Maintais | Crynodeb |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r gyfraith amaethyddol dameidiog bresennol | Mae corff o gyfraith sy'n dameidiog ac yn swmpus yn anodd ei lywio a'i ddeall. Bydd dod â'r gyfraith honno at ei gilydd mewn nifer o ddeddfiadau ar wahân sydd gyda'i gilydd yn rhan o'r darpar God mewn egwyddor yn gwneud y ddeddfwriaeth honno'n haws ei nodi a chael gafael arni. |
| Moderneiddio a symleiddio | Mae dod â deddfwriaeth at ei gilydd mewn Deddf cydgrynhoi sy'n rhan o'r darpar God yn gyfle i wneud newidiadau technegol i'r gyfraith nad ydynt yn newid effaith y gyfraith ond yn ceisio ei moderneiddio neu ei symleiddio. Gall cyflwyno newidiadau neu addasiadau technegol o'r fath wneud y gyfraith yn haws ei deall a sicrhau ei bod yn cyfleu arferion sydd wedi ennill eu plwyf. |
| Ymgorffori arferion drafftio deddfwriaethol modern | Mae egwyddorion a thechnegau pwrpasol y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio wrth ddrafftio Biliau ac offerynnau statudol Cymru. Mae dod â deddfwriaeth amaethyddol bre-sennol at ei gilydd mewn Deddf gan y Senedd yn gyfle i sicrhau bod y cyfreithiau'n cael eu drafftio yn unol ag arferion drafftio deddfwriaethol modern yng Nghymru. |
| Gwneud y broses o rannu cyfrifoldeb gweithredol a pholisi yn gliriach | Ar hyn o bryd, mae llawer o bwerau Gweinidogion Cymru i reoleiddio neu gefnogi'r sector amaethyddol wedi'u cynnwys mewn darpariaethau a nodir yn Neddfau Senedd y DU. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir o'r Deddfau hynny bod y swyddogaethau statudol yn rhai y mae Gweinidogion Cymru yn eu harfer yng nghyswllt Cymru. Yn hytrach, mae angen edrych ar ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth i benderfynu pwy all arfer y pŵer dan sylw. Mae dod â'r ddeddfwriaeth dan sylw at ei gilydd o dan Ddeddf Senedd Cymru sy'n rhan o'r darpar God yn golygu y gellir ei gwneud yn gliriach o ran y gyfraith lle mae cyfrifoldeb a phŵer gweithredol yn y cyd-destun amaethyddol. |
| Deddfwriaeth ddwyieithog | Mae llawer o'r Deddfau y nodwn eu bod yn addas i'w cynnwys yn y darpar God yn Ddeddfau gan Senedd y DU sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd. I'r gwrthwyneb, mae'r cyfreithiau y mae'r Senedd yn eu deddfu yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai fod eithriadau cyfyngedig yn berthnasol.<br><br>Mae dod â deddfwriaeth amaethyddol o fewn cwmpas y darpar God yn golygu y bydd y gyfraith dan sylw yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg. |

## PROBLEMAU TECHNEGOL GYDA'R DDEDDFWRIAETH SY'N CAEL EI HADOLYGU


Ein prif dasg ar gyfer y prosiect hwn fu nodi'r ddeddfwriaeth sy'n addas i'w chynnwys yn y darpar God. Ochr yn ochr â'r brif dasg honno, rydym hefyd yn ystyried a allai'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei hadolygu fynnu neu elwa o newidiadau technegol neu addasiadau sydd â'r nod o symleiddio. Wrth adolygu deddfwriaeth amaethyddol i nodi enghreifftiau o faterion technegol o'r fath, rydym wedi cael ein harwain gan y mathau o ddiwygiadau technegol y caniateir eu gwneud o dan Ddeddf cydgrynhoi Senedd Cymru.

Gellir grwpio'r materion technegol rydym wedi'u nodi gyda'r ddeddfwriaeth amaethyddol a adolygwyd yn bedwar categori. Rydym yn cyflwyno'r categorïau hynny yn y tabl isod ochr yn ochr ag enghreifftiau.

☞ Gweler Pennod 11

| Categori diwygio technegol | Enghraifft |
|---|---|
| Diweddariadau i adlewyrchu arferion drafftio cyfredol ar gyfer deddfwriaeth Cymru | Rydym yn nodi y byddai cydgrynhoi yn gyfle i ailddatgan pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag arferion drafftio deddfwriaethol modern Cymru. Er enghraifft, gellid ailddatgan pwerau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchmynion fel pwerau i wneud rheoliadau. Rydym yn nodi enghreifftiau o bwerau gwneud gorchmynion y gellid, yn ein barn ni, eu hailddatgan mewn Deddf Senedd Cymru fel pwerau i gyflwyno rheoliadau. |
| Moderneiddio, er enghraifft, lle nad yw'r gyfraith yn adlewyrchu arferion sydd wedi ennill eu plwyf | Rydym yn nodi bod Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn datgan bod yn rhaid rhoi gwybod i'r heddlu am rai clefydau hysbysadwy mewn anifeiliaid, ond yn yr oes fodern mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("yr APHA"). Yn yr un modd, rydym yn nodi y gallai is-ddeddfwriaeth berthnasol a wneir o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 nodi'n gliriach bod yn rhaid rhoi gwybod i'r APHA. |
| Eglurhad lle nad yw'r termau a ddefnyddir yn y gyfraith yn glir neu lle mae'r darpariaethau'n anghyson o ran eu geiriad | Rydym yn tynnu sylw at y ffaith y gellid gwneud y rheolau sy'n berthnasol i ailosod mân-ddaliadau statudol i wŷr/gwragedd neu bartneriaid sifil tenantiaid sydd wedi marw yn gliriach; yn enwedig o ran sut maent yn berthnasol i weddwon tenantiaid sydd wedi marw |
| Dileu darpariaethau diangen neu sydd wedi darfod | Rydym yn ystyried a yw adran 18 o Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946 - sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio prosesau rheoli hyrddod - yn addas i'w diddymu. Nodwn nad yw'r pŵer wedi cael ei arfer ers dros 50 mlynedd. |

# MATERION I'W HYSTYRIED YMHELLACH



## Materion cyffredinol i'w hystyried ymhellach

Wrth gynnig model posibl ar gyfer y darpar God, rydym yn cydnabod y gallai fod materion y mae angen eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun datblygu'r darpar God. Rydym yn nodi isod enghreifftiau o faterion o'r fath a nodwyd yn ein hadroddiad cwmpasu.

| Pennod | Mater |
|---|---|
| Pennod 4 | Caiff meysydd mawr o gyfraith amaethyddol eu rheoleiddio gan gyfraith a gymathwyd. Bydd penderfyniadau ynghylch a fydd dirymu neu ddirymu a disodli'r cyfreithiau hynny a gymathwyd sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn cynnwys asesiadau sy'n seiliedig ar bolisi. Mae gwahanol opsiynau ar gyfer ailddatgan, dirymu neu addasu cyfraith a gymathwyd. Rydym o'r farn y gallai dod â chyfreithiau a gymathwyd o fewn cwmpas y darpar God wella hygyrchedd y gyfraith honno. |
| Pennod 4 | Bydd sefydlu'r darpar God yn gofyn am ystyried a ddylid cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God yn amodol ar gynnwys y darpariaethau galluogi cyfatebol. Mae darpariaethau galluogi yn bwerau y darperir ar eu cyfer o dan ddeddfwriaeth sylfaenol i ddeddfu is-ddeddfwriaeth fel rheoliadau neu orchmynion. Rydym yn dod i'r casgliad y dylid mabwysiadu dull hyblyg o ymdrin â'r mater hwn sy'n caniatáu cynnwys is-ddeddfwriaeth yn y darpar God, hyd yn oed os yw'r darpariaethau galluogi cyfatebol wedi'u heithrio. Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater i'w ystyried sy'n debygol o godi yng nghyd-destun datblygu codau cyfreithiol eraill ar wahanol bynciau. |
| Penodau 4 and 5 | Rydym yn edrych ar y gwahanol ddiffiniadau statudol o'r term “amaethyddiaeth”: nodi 13 diffiniad penodol o'r term. Rydym yn ystyried cyfleoedd i symleiddio neu foderneiddio diffiniadau statudol o “amaethyddiaeth” sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol. Rydym yn edrych ymhellach ar oblygiadau symleiddio a moderneiddio'r diffiniadau hynny, gan gynnwys yr effaith bosibl ar unrhyw hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol cysylltiedig. |
| Pennod 7 | Mae'r pwerau statudol presennol i orfodi cyfraith iechyd anifeiliaid yn dameidiog. Oherwydd datblygiad tameidiog y gyfraith yn y maes hwn, gall y darpariaethau deddfwriaethol hynny sy'n rhoi pwerau gorfodi yng nghyd-destun iechyd anifeiliaid fod yn anghyson eu geiriad. Mae cynnwys cyfraith iechyd anifeiliaid yn y darpar God yn gyfle i archwilio a fyddai geiriad pwerau gorfodi, fel sy'n berthnasol yng Nghymru, yn elwa o gael ei safoni. |
| Pennod 7 | Mae sefydlu’r darpar God yn gyfle i archwilio a yw'r dirwyon uchaf y gellir eu gosod am droseddau yn y cyd-destun amaethyddol yn gyson. Nid ydym yn gwneud cynigion ynghylch y dirwyion uchaf briodol y gellir eu gosod am droseddau unigol. Yn hytrach, rydym yn cyfeirio at enghraifft lle mae'r dirwyon uchaf y gellir eu gosod yng nghyd-destun adnabod da byw yn ymddangos yn anghyson o bosibl. |

## Galwadau am ddiwygio sylweddol sy'n haeddu ystyriaeth bellach

Yn ogystal â'r materion cyffredinol a amlinellir uchod, rydym yn cydnabod y gallai fod yn annerbyniol cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol lle mae galwadau eang am ddiwygio sylweddol ar y gyfraith dan sylw, neu lle mae cynlluniau i ddiwygio deddfwriaeth o'r fath.

O ganlyniad, drwy gydol ein hadroddiad cwmpasu rydym wedi tynnu sylw at enghreifftiau o alwadau am ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i amaethyddiaeth yn sylweddol. Yng ngoleuni'r galwadau hyn am ddiwygio, rydym o'r farn y gallai fod angen dadansoddi'r meysydd cyfraith amaethyddol dan sylw ymhellach cyn eu cynnwys yn y darpar God. Yn y tabl isod, rydym yn cyflwyno enghreifftiau o'r galwadau hynny am ddiwygio sylweddol, fel y nodwyd yn ein hadroddiad cwmpasu.

| Pennod | Galwadau am gynigion am ddiwygio sylweddol |
|---|---|
| Pennod 5 | Rydym yn ystyried adrannau 98 a 99 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 sy'n ymwneud â rheoli plâu amaethyddol, cwningod ac anifeiliaid caeth. Rydym yn tynnu sylw at argymhellion perthnasol ar gyfer diwygio'r adrannau hyn fel y'u cyflwynwyd yn ein hadroddiad diwygio cyfraith bywyd gwyllt yn 2015. |
| Pennod 6 | Rydym yn cyfeirio at alwadau sydd wedi hen ennill eu plwyf i gydgrynhoi deddfwriaeth bywyd gwyllt. Rydym yn ystyried i ba raddau y gallai unrhyw waith o'r fath i gydgrynhoi cyfraith bywyd gwyllt fod o fudd i ddefnyddwyr y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. |
| Pennod 8 | Rydym yn edrych ar adroddiad annibynnol diweddar sy'n argymell diwygio'r gyfraith ar wrychoedd gan drafod sut gallai'r cyfeiriad polisi a gynigir yn yr adroddiad hwnnw ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch a yw'r gyfraith ar wrychoedd yn addas i'w chynnwys yn y darpar god cyfraith amaethyddol i Gymru. |
| Pennod 9 | Rydym yn crynhoi'r galwadau am ddiwygio'n sylweddol y gyfraith sy'n rheoli tenantiaethau amaethyddol fel y mae'n berthnasol yng Nghymru. Cyfeiriwn at ein hadolygiad o ddeddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac ystyriwn a allai canlyniad yr adolygiad hwnnw ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch, ac os felly, sut, ac a yw deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol yn cael ei chynnwys yn y darpar God. |
| Pennod 9 | Rydym yn crynhoi galwadau a chynigion i ddiwygio agweddau ar y drefn mân-ddaliadau statudol fel y darperir ar eu cyfer o dan Ran 3 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1970. |
| Pennod 10 | Rydym yn cyfeirio at alwadau am ddiwygio'r gyfraith ar blaleiddiaid yn sylweddol a’r gyfraith sy'n ymwneud â lladd-dai ar wahân. |

## Y CAMAU NESAF

Mater i Lywodraeth Cymru yn awr yw ystyried ein hadroddiad cwmpasu a phenderfynu a ddylid sefydlu'r darpar God ai peidio, a p’un ai a ddylid gwneud hynny yn unol â model y darpar God a gynigir yn ein hadroddiad cwmpasu.

Ar ben hynny, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a oes angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r canlynol:

1. unrhyw un o'r materion technegol rydym yn eu nodi gyda deddfwriaeth amaethyddol bresennol; ac

2. y materion ehangach hynny i'w hystyried yr ydym yn tynnu sylw atynt yn yr adroddiad cwmpasu.

O dan y Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ymateb interim i adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith cyn gynted â phosibl, a beth bynnag o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad oni chytunir fel arall gyda'r Comisiwn.[7]

Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu ymateb llawn cyn gynted â phosibl ar ôl yr ymateb interim a beth bynnag o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad cwmpasu, oni chytunir fel arall gyda'r Comisiwn.



## NODIADAU DIWEDD

[1] Adroddodd Ymchwil Coedwigaeth fod 132,000 hectar o goetir fferm yng Nghymru tra nododd yr arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth gyfanswm o 1,770,100 hectar o dir amaethyddol.

[2] Fodd bynnag, nid yw ein hadroddiad yn ystyried yr holl gyfreithiau sy'n berthnasol drwy'r gadwyn gyflenwi amaethyddol. Er enghraifft, mae cyfreithiau sy'n rheoleiddio milfeddygon y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn gan fod cyfreithiau o'r fath yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (am ragor o fanylion gweler paragraff 7.101 yr adroddiad).

[3] Llywodraeth Cymru, *Arolwg amaethyddiaeth a garddwriaeth* (2025) https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2025/12/2/1765272643/survey-agriculture-and-horticulture-june-2025.pdf, t 6.

[4] Adroddodd Ymchwil Coedwigaeth fod 132,000 hectar o goetir fferm yng Nghymru yn ei adroddiad 2025, tra nododd yr arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth gyfanswm o 1,770,100 hectar o dir amaethyddol.

[5] Ymchwil Coedwigaeth, *Forestry Statistics 2025* (2025) https://cdn.forestresearch.gov.uk/2025/09/FS2025_Ch1-68d4f71b97f6f.pdf, pennod 1, tt 9 a 48.

[6] Gweler Pennod 9 am ragor o wybodaeth.

[7] Protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith (Gorffennaf 2015) https://cloud-platform-e218f50a4812967ba1215eaecede923f.s3.amazonaws.com/uploads/sites/54/2024/11/Law_Commission_Welsh_Protocol.pdf.

**Credydau Lluniau**

Clawr: iStock.com/zen_light

Ffermio amgylchedd dan reolaeth tudalen 3: iStock.com/MdNazim

Pobl yn siarad tudalen 4: iStock.com/StockStudio

Defaid tudalen 8: iStock.com/leighton collins

Caeau tudalen 9: iStock.com/Vadym

Tŷ fferm tudalen 10: iStock.com/Harvey Hudson

Swigen meddwl tudalen 15: iStock.com/NisatFarjana

Swigod siarad cartŵn tudalen 17: iStock.com/Iryna Alekseienko